



ADRODDIAD BLYNYDDOL

2025/26



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

CYNNWYS

Rhagair	3
Neges y Prif Weithredwr	4
Sut y Gwnaethom Gyflawni ein Hamcanion Cynllun Strategol 2021-2025	5-6

Nodi

7

Cynllun Strategol 2026-2030: y Ffordd Ymlaen	7
Nodi Pynciau	8

Arfarnu

9

Penodi Dirprwy Gadeirydd Newydd y Panel Arfarnu	9
Crynodeb o Arfarniadau	10
Argymhellion Canllawiau Cenedlaethol HTW ar gyfer 2025/26	11
Rhestr o Ganllawiau HTW a Gyhoeddwyd yn 2025/26	12
Astudiaeth Achos Arfarnu	13-16
Adroddiad Archwiliad Mabwysiadu Diweddaraf yn Datgelu Effaith Canllawiau HTW Yng Nghymru	17

Cynnwys Cleifion a’r Cyhoedd (PPI)

18

Gweithgareddau PPI yn 2025/26	18
Dathlu Pennod Newydd ar Gyfer PPI	19

Ymgysylltu

20

Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad	20
Cefnogi Arloesedd	21
Paratoi’r Ffordd ar Gyfer Deallusrwydd Artiffisial Mewn Gofal Iechyd	22
Cydweithio Ar Dystiolaeth	23
Cyhoeddi Papur Yn Datgelu Cost I’r Gig o Ganlyniad I Dwristiaeth Feddygol	24
HTW ar y Ffordd	25
Ein Tîm	26
Cyflawni yn erbyn y Gyllideb	27

Ein partneriaid



Ymddiriedolaeth GIG

Prifysgol Felindre

Velindre University

NHS Trust



Ariennir gan

Lywodraeth Cymru

Funded by

Welsh Government

RHAGAIR

Croeso i’n Hadroddiad Blynyddol diweddaraf sy’n nodi sut yr ydym wedi parhau i ddarparu canllawiau o ansawdd uchel, sy’n seiliedig ar dystiolaeth, ar dechnolegau iechyd newydd i GIG Cymru drwy gydol 2025/26. Eleni, gwnaethom ystyried 56 o atgyfeiriadau pwnc newydd a chyhoeddwyd 10 canllaw HTW ar bynciau yn amrywio o fonitro fideo yn y cartref ar gyfer diagnosio a rheoli epilepsi i ddyfeisiau sbwng capsiwl i ganfod oesoffagws Barrett a chanser yr oesoffagws ar gam cynnar.

Mae gwella eglurder a defnyddioldeb ein canllawiau yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cyflwyno set newydd o argymhellion canllawiau a fydd yn berthnasol i bob canllaw newydd a gyhoeddir o fis Chwefror 2026 ymlaen. Mae’r newidiadau hyn wedi’u cynllunio i sicrhau bod ein canllawiau cenedlaethol yn gliriach, yn fwy cyson, ac yn hygyrch i ystod ehangach o gynulleidfaoedd ar draws y system iechyd a gofal.

Gwnaethom barhau i gryfhau ein dull ar gyfer arfarnu technolegau arloesol, gan gynnwys y rheini sy’n defnyddio deallusrwydd artifisial. Eleni daethom yn aelod sefydlol Grŵp Cymuned Fuddiant AI y DU Gyfan, gan ein galluogi i rannu arfer gorau, cyfrannu at feddl cenedlaethol a chydweithio’n agosach â phartneriaid ledled y DU ar arfarnu technolegau a alluogir gan AI.

Cafodd ein Harchwiliad Mabwysiadu diweddaraf y gyfradd ymateb orau hyd yma, sef 98%, gyda bob un o’r 10 sefydliad comisiynu yng Nghymru yn cyfrannu. Dangosodd yr archwiliad, a oedd yn canolbwyntio ar chwech o ganllawiau HTW a thri chanllaw Arfarnu Technolegau Meddygol (MTEP) NICE, unwaith eto fod ein gwaith yn sbarduno effaith ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau ledled Cymru.

Gwnaethom barhau i weithio fel partner cydweithredol i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnal adolygiadau tystiolaeth cyflym i gefnogi gwneud penderfyniadau gan lunwyr polisi yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil ar y gost i’r GIG o dwristiaeth feddygol, adroddiad a ddenodd sylw sylweddol yn y cyfryngau yn genedlaethol.

Mae Cynnwys Cleifion a’r Cyhoedd (PPI) yn parhau i fod yn rhan graidd o’n gwaith arfarnu, ac rydym yn ddiolchgar fel erioed i’n Grŵp Sefydlog PPI (PPISG) sy’n cynnal gwaith mor werthfawr i sicrhau bod llais y claf a’r cyhoedd wedi’i gynnwys yn ein gwaith. Ymhlith cyflawniadau nodedig y grŵp yn 2025/26 oedd ei gyfranogiad yn ail argraffiad y llyfr ar gynnal Cynnwys Cleifion a’r Cyhoedd mewn Asesiadau Technoleg Iechyd. Mae’r bennod ar Gymru y cyfrannwyd iddi gan y grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau pwrpasol ar gyfer Cynnwys Cleifion mewn Asesiadau Technoleg Iechyd.

Chwaraeodd y PPISG rôl allweddol hefyd mewn datblygu proses ar gyfer ymgorffori ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) yn y broses PPI ar gyfer technolegau sy’n cael eu harfarnu gan HTW. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ein canllawiau’n adlewyrchu ystyriaeth o’r naw nodwedd warchodedig a nodir yn neddfwriaeth cydraddoldeb y DU.

Rydym yn dechrau’r flwyddyn ariannol newydd gyda Chynllun Strategol newydd sy’n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Wedi’i ddatblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae’r cynllun yn gosod cyfeiriad uchelgeisiol i’r sefydliad. Hoffem ddiolch i’n partneriaid am eu cefnogaeth barhaus ac edrychwn ymlaen at gydweithio i gyflawni’r nodau a’r amcanion y mae’r Cynllun Strategol yn eu hamlinellu.



Yr Athro Keith Lloyd
Cadeirydd
Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru



Dr Susan Myles
Cyfarwyddwr
Technoleg Iechyd Cymru

NEGES Y PRIF WEITHREDWR

Fel Prif Weithredwr Dros Dro Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, rwy’n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol diweddaraf Technoleg Iechyd Cymru (HTW). Fel y sefydliad sy’n lletya Technoleg Iechyd Cymru, rydym yn falch o gefnogi’r sefydliad yn ei genhadaeth i nodi ac arfarnu technolegau iechyd arloesol sydd â’r potensial i wella gofal i bobl ledled Cymru.

Eleni, parhaodd HTW i arfarnu technolegau sydd â’r potensial i drawsnewid diagnosis a thriniaeth cancer yng Nghymru. Yn arbennig, mae’r sefydliad wedi cyhoeddi canllawiau ar dechnolegau megis [abladiad thermol i drin metastasisau’r afu cancer y colon a’r rhefr](#), technoleg sy’n cynnig gobaith newydd wrth reoli canserau eilaidd, a [dyfeisiau sbwng capsiwl i ganfod oesoffagws Barrett a chanser yr oesoffagws ar gam cynnar](#).

Mae HTW yn parhau i chwarae rhan allweddol mewn datblygu dulliau cadarn ar gyfer arfarnu technolegau deallusrwydd artiffisial (AI) mewn gofal iechyd. Fel aelod o Grŵp Cymuned Fuddiant AI y DU gyfan, gall rannu arfer gorau ar werthuso AI mewn gofal iechyd a chefnogi datblygiad technolegau AI arloesol. Mae’r dechnoleg hon yn cynnig potensial sylweddol ar gyfer hyrwyddo diagnosis a thriniaeth cancer, ac edrychwn ymlaen at weld sut mae gwaith HTW yn datblygu yn y maes hwn.

Rydym yn falch o ymdrechion HTW i ymgorffori ymhellach dystiolaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ET&I) yn y broses arfarnu. Drwy ymgorffori ystyriaethau ET&I yn ei arfarniadau bydd HTW yn sicrhau bod y technolegau y mae’n eu hargymell yn hygyrch i bob aelod o’r gymuned Cymru. Mae hyn yn cefnogi ein cred graidd fel Ymddiriedolaeth GIG Cymru, bod yn rhaid i ofal iechyd effeithiol fod yn deg ac yn gynhwysol.

Mae [Cynllun Strategol 2026-2030 HTW](#) yn nodi ei amcanion uchelgeisiol ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac yn ail-gadarnhau ei ymrwymiad i gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i wella’n sylweddol iechyd a gofal i bobl Cymru. Edrychwn ymlaen at gefnogi’r sefydliad i gyflawni’r amcanion hynny yn erbyn cefndir o ddatblygiad technolegol cyflym ym maes gofal iechyd.



Carl James
Prif Weithredwr Dros Dro
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre



Sara Moseley
Cadeirydd
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

SUT Y GWNAETHOM GYFLAWNI EIN HAMCANION CYNLLUN STRATEGOL 2021-2025

Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) yn 2017 mewn ymateb i'r argymhelliad Gweinidogol a ddaeth i'r amlwg o'r Ymchwiliad yn 2014 a oedd yn ymchwilio i 'Fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru'. Gosodwyd cylch gwaith clir i HTW i 'gefnogi dull strategol o gefnogi mabwysiadu technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau yng Nghymru'.

Wyth mlynedd i mewn i'w ddatblygiad, mae HTW wedi llwyddo i sefydlu corff asesu technoleg iechyd (HTA) a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r sefydliad wedi cynhyrchu corff a berchir yn fawr o adroddiadau arfarnu tystiolaeth o ansawdd uchel ac wedi datblygu canllawiau cenedlaethol i lywio mabwysiadu technoleg iechyd gan arwain at effaith sylweddol ar y system ofal yng Nghymru.

Amlinellir uchafbwyntiau allweddol ein cyflawniadau yn erbyn Cynllun Strategol 2021-2025 HTW isod.

NODI

Amcan: Nodi'n llwyddiannus dechnolegau ar gyfer eu harfarnu y disgwylir iddynt gael effaith fawr ar gyfer gwasanaethau gofal a defnyddwyr.

Sut y gwnaethom gyflawni hyn:

Cynnal galwadau am bynciau agored a thargedig gydag ystod eang o randdeiliaid (o grwpiau proffesiynol i ddiwydiant a chleifion a'r cyhoedd) i nodi pynciau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol ac effaith.

Ystyried dros 600 o atgyfeiriadau pwnc technoleg iechyd a dewis y rhai sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau system gofal genedlaethol y disgwylir iddynt gael yr effaith fwyaf.

Dod yn bartneriaid gweithredol yng Ngwasanaeth Arloesi'r GIG ledled y DU.

Cydweithio a rhannu gwybodaeth sganio gorwel gyda chyrff HTA eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

ARFARNU

Amcan: Hyrwyddo dull cenedlaethol cydlynol ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i annog mabwysiadu technoleg feddygol deg ledled Cymru.

Sut y gwnaethom gyflawni hyn:

Datblygu proses HTA Cymru Gyfan i asesu effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd technolegau meddygol, gan ddysgu o arfer gorau cenedlaethol a rhyngwladol.

Cynhyrchu corff sylweddol o waith cyfod tystiolaeth o ansawdd uchel sydd wedi llywio ac effeithio ar wneud penderfyniadau a chanlyniadau gwasanaethau gofal ledled Cymru, gan gynnwys:

- 343 Adroddiad Archwilio Pwnc (TER)
- 75 Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth (EAR) sy'n cyfod tystiolaeth ar effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd technolegau meddygol mewn lleoliadau gofal yng Nghymru.
- 62 canllaw cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda statws 'Mabwysiadu neu Gyfiawnhau' y disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleoli yng Nghymru gadw atynt.

Gwneud cyfraniad mawr i gefnogi gwneud penderfyniadau yn ystod pandemig COVID-19 drwy ganolfan dystiolaeth COVID-19 Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad cyntaf yn y DU ar brofion i lywio diagnosis ac adroddiadau tystiolaeth cyflym ar ddiagnosteg a therapïau sy'n dod i'r amlwg e.e. ocsimetreg pwls, therapi plasma adfer, gorchuddion wyneb a llawer mwy. Gwnaethom hefyd gynhyrchu crynodebau tystiolaeth rheolaidd i hysbysu llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill.

Darparu cefnogaeth tystiolaeth i'r paneli Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) ledled Cymru, sy'n ystyried ceisiadau cleifion i gael mynediad at driniaethau nad ydynt yn cael eu cynnig fel mater o drefn gan eu bwrdd iechyd lleo.

Cynhyrchu adolygiadau tystiolaeth ar gyfer Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Cymru Gyfan (AWCEG) sy'n gweithio i lunio un rhestr genedlaethol o Ymyriadau Nas Cyflawnir Fel Arfer (INNU), er mwyn llywio penderfyniadau dadfuddsoddi technoleg teg ledled Cymru.



SUT Y GWNAETHOM GYFLAWNI EIN HAMCANION CYNLLUN STRATEGOL 2021-2025

MABWYSIADU

Amcan: Lledaenu ac archwilio cyfraddau mabwysiadu pob Canllaw HTW a detholiad o Ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) i ddeall y defnydd ledled Cymru.

Sut y gwnaethom gyflawni hyn:

Dod y corff HTA cyntaf yn y DU i gyflwyno archwiliad fel mater o drefn ar gyfer cyfradd fabwysiadu canllawiau cenedlaethol.

Ariannu cyflwyniad y system Rheoli ac Olrhain Archwiliadau (AMaT) ledled Cymru gan hwyluso archwiliad o ganllawiau HTW a NICE.

Cynnal archwiliadau mabwysiadu blynyddol HTW i roi crynodeb i Lywodraeth Cymru o'r nifer sy'n defnyddio ein canllawiau ac unrhyw anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth eu mabwysiadu ledled Cymru.

YMGYSYLLTU

Amcan: Hyrwyddo dealltwriaeth a defnydd o allbynnau HTA HTW ymhlith rhanddeiliaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Sut y gwnaethom gyflawni hyn:

Ennill gwobr fyd-eang nodedig - Gwobr 'Best Impact Story Award' David Hailey INAHTA - a bleidleisiwyd drosti gan dros 50 o'n cyrff HTA cymheiriaid rhyngwladol, gan gydnabod gwaith HTW.

Rhannu ein dull o'r radd flaenaf o Gynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) trwy gyfrannu at y llyfr cyfeirio rhyngwladol cyntaf sy'n amlinellu dulliau Cymru a rhai rhyngwladol o 'Gynnwys Cleifion mewn HTA'.

Rhoi memoranda cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda phartneriaid allweddol yng Nghymru a ledled y DU gan gynnwys Comisiwn Bevan, Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), NICE a Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban.

Ymuno â chydweithrediadau HTA rhyngwladol i rannu gwybodaeth, piblinellau pynciau, datblygiadau methodolegol ac arfer gorau.

Gwneud cyfraniadau sylweddol at gyrff cymheiriaid proffesiynol rhyngwladol allweddol ym maes HTA – Asesiad Technoleg Iechyd rhyngwladol (HTAi), Rhwydwaith Rhyngwladol Asiantaethau ar gyfer Asesu Technoleg Iechyd (INAHTA), Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Asesu Technoleg Iechyd (EUnetHTA) a'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Asesu Ymyrraeth Gymdeithasol (INSIA) - cymryd rhan mewn cynadleddau blynyddol a nifer o weithgورau rhyngwladol a datganiadau safbwynt e.e. ar rôl HTA, effaith HTA, technolegau tarfol, asesiadau ymyrraeth gymdeithasol, cynaliadwyedd mewn HTA a PPI.

Darparu cefnogaeth tystiolaeth i nifer o grwpiau polisi a gwneud penderfyniadau cenedlaethol yng Nghymru gan gynnwys, Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, IPFR, AWTTC, AWCEG ac ati.

Cyhoeddi gwaith HTW mewn cyfnodolion o ansawdd uchel a adolygir gan gymheiriaid, gan gynnwys BMJ Open.

Gweithio mewn partneriaeth â Chontractau ar gyfer Arloesi Cymru (CIC) (a elwid gynt yn Fenter Ymchwil Busnesau Bach - SBRI) fel aelod o'i fyrddau prosiect - gan gefnogi penderfyniadau ynghylch pa dechnolegau sy'n cael eu dewis ar gyfer heriau ariannu. Ymuno â chonsortiwm gydag ymchwilwyr academiaidd o Ffowndri Gyfrifiadol Prifysgol Abertawe a staff ymchwil yn TEC Cymru i gefnogi profi ac arfarnu technolegau deallusrwydd artiffisial mewn iechyd a gofal, i gefnogi gwaith Dyfarniad Gwerthuso Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Iechyd a Gofal.



Hoffem ddiolch i'n rhanddeiliaid am eu cyfraniadau ac am ein cynorthwyo i gyflawni'r cylch gwaith a osodwyd ar ein cyfer.

Diolch i'w cefnogaeth rydym wedi creu sefydliad ymatebol sy'n perfformio'n dda, ac wedi gweithio tuag at ein gweledigaeth i sefydlu sefydliad HTA o'r radd flaenaf sy'n defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i wella iechyd, lles a gwerth yng Nghymru.

Dr Susan Myles,
Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru



Mae Technoleg Iechyd Cymru yn rhan nodedig, ddibynadwy a gwerthfawr o'r dirwedd arloesi yng Nghymru ac mae wedi cyflawni twf beiddgar ac uchelgeisiol ers ei sefydlu yn 2017.

Mark Campbell, Ymgynghorydd Technoleg Iechyd Annibynnol ac awdur Adolygiad Pum Mlynedd HTW

CYNLLUN STRATEGOL 2026-2030:

Y FFORDD YMLAEN

Rydym yn falch o gyhoeddi ein Cynllun Strategol 2026-2030.

Mae'r cynllun yn nodi ein nodau ac amcanion tymor byr a chanolig ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n ddogfen fyw a fydd yn cael ei mireinio'n barhaus i adlewyrchu newidiadau i agenda polisi iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

Wedi'u cynnwys yn y cynllun mae pum amcan blaenoriaeth HTA ar gyfer y pedair blynedd nesaf:

Cynhyrchu a lledaenu arfarniadau tystiolaeth iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel a chynhwysol a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru.

Sicrhau aliniad â blaenoriaethau Gweinidogol, polisi a'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Cefnogi gwneud penderfyniadau polisi iechyd a gofal cymdeithasol sy'n hollbwysig o ran amser drwy fentrau, rhaglenni a grwpiau Cymru a'r DU.

Cynnal archwiliad mabwysiadu blynyddol o ganllawiau HTW a detholiad o ganllawiau NICE.

Cydweithio â phartneriaid ecosystem iechyd a gofal cymdeithasol Cymru a phartneriaid asesu technoleg iechyd y DU (e.e. NICE, Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban, Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd) i gefnogi polisi arloesi a thechnoleg feddygol berthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi amcanion HTW mewn pedwar maes allweddol: nodi, arfarnu, mabwysiadu, ac effaith ac ymgysylltu.



Yn y pedair blynedd nesaf, mae gan Dechnoleg Iechyd Cymru rôl hanfodol i'w chwarae mewn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i wella'n sylweddol iechyd a gofal i bobl Cymru.

Mae datblygiadau technolegol cyflym yn golygu ei bod hi'n bwysicach nag erioed nodi technolegau iechyd sydd â'r effaith fwyaf posibl ar gyfer Cymru ac asesu eu heffeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n rhanddeiliaid ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol am eu cefnogaeth barhaus i'n gwaith.

Dr Susan Myles, Cyfarwyddwr HTW

[Cliciwch yma](#) i lawrlwytho copi o Gynllun Strategol 2026-30.



NODI PYNCIAU


56

Pynciau a gynigiwyd i HTW yn 2025/26


607

Pynciau a gynigiwyd i HTW ers 2017

Ffynhonnell atgyfeiriadau pwnc yn 2025/26 (%)



Dadansoddiad o bynciau a atgyfeiriwyd gan y GIG yn 2025/26



Rydym wedi cynhyrchu animeiddiad i esbonio'r meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno pwnc i'w arfarnu. I gael gwybod mwy gallwch ei wyllo [yma](#).

PENODI DIRPRWY GADEIRYDD NEWYDD Y PANEL ARFARNU



Rydym yn falch o gyhoeddi penodiad yr Athro Chris Hopkins yn Ddirprwy Gadeirydd Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru.

Mae'r Athro Hopkins yn Wyddonydd Clinigol Ymgynghorol ac yn Bennaeth Sefydliad TriTech ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'n Gyfarwyddwr Clinigol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac yn Gymrawd yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd.

Wrth siarad am ei benodiad, dywedodd:



Mae'n anrhydedd fawr i mi gael fy mhenodi'n Ddirprwy Gadeirydd Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru. Trwy gydol fy ngyrfa, rydw i wedi cael y ffrind o weithio ar draws y GIG, y byd academaidd a'r diwydiant er mwyn hyrwyddo arloesedd, cryfhau llwybrau clinigol, a hyrwyddo rôl technoleg mewn gwella canlyniadau cleifion.

Rwy'n gweld y penodiad hwn fel cyfle i ddefnyddio'r profiad hwnnw wrth gefnogi cenhadaeth Technoleg Iechyd Cymru, gan sicrhau bod ein prosesau arfarnu a mabwysiadu yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn canolbwyntio ar roi buddion ystyrlon i gleifion, gweithwyr proffesiynol, a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Rôl Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru yw ystyried canllawiau gofal iechyd cenedlaethol HTW yng nghyd-destun y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru a chynhyrchu canllawiau cenedlaethol HTW yn seiliedig ar y dystiolaeth hon.

Parhaodd yr Athro Hopkins:



Mae asesiad technoleg iechyd (HTA) yn ganolog i lunio dyfodol darpariaeth gofal iechyd yng Nghymru. Trwy integreiddio tystiolaeth gadarn, arfarnu yn y byd go iawn, ac arbenigedd amlddisgyblaethol, mae HTA yn sicrhau bod gwneud penderfyniadau yn wyddonol drylwyr ac yn ymatebol yn gymdeithasol.

Fy nyhead yn y rôl hon yw cyfrannu at ddatblygiad parhaus Technoleg Iechyd Cymru fel corff sydd nid yn unig yn darparu argymhellion annibynnol, wedi'u llywio gan dystiolaeth ond sydd hefyd yn hyrwyddo egwyddorion arloesedd, cynhwysiant, a thegwch. Y nod yw sicrhau bod Cymru yn parhau ar flaen y gad o ran mabwysiadu technolegau sy'n seiliedig ar werth, yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn gallu cael effaith ystyrlon yn y cymunedau a wasanaethir gennym.

CRYNODEB O ARFARNIADAU

Dysgu mwy

Hoffech chi ddysgu mwy am broses arfarnu pynciau Technoleg Iechyd Cymru? Er mwyn codi ymwybyddiaeth am sut mae'r broses yn gweithio, rydym wedi creu fideo animeiddiedig y gallwch ei wyllo yma.

CYMRYD RHAN

Wyddoch chi am dechnoleg neu fodel gofal a chymorth ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol y gallai Technoleg Iechyd Cymru arfarnu?

Gall unrhyw un awgrymu pwnc ac rydym yn awyddus i dderbyn awgrymiadau gan bobl o ystod eang o gefndiroedd, gan gynnwys y cyhoedd.

I awgrymu pwnc, cwblhewch ein ffurflen ar-lein yma.



11

Pynciau a symudwyd ymlaen i arfarnu
tystiolaeth yn 2025/26

10

Canllawiau cenedlaethol HTW a gyhoeddwyd
yn 2025/26

62

Canllawiau cenedlaethol HTW a gyhoeddwyd
ers 2017



Fel cynigydd pwnc, roeddwn i'n teimlo bod y broses yn hawdd i'w llywio ac yn gynhwysfawr. Roedd y canllawiau ar gyfer cynigwyr pwnc ar y wefan yn glir ac yn ein helpu i strwythuro'r ddogfen gynnig a'n trafodaeth gyda thîm HTA. Gwnaed argraff fawr arnaf hefyd gan natur agored y tîm i wrando ar adborth a gawsom am y ddogfen werthuso drafft, ac i ystyried y rhain lle bo'n berthnasol, heb beryglu'r adolygiad ei hun. Cawsom ein diweddarw drwy gydol y broses, a oedd yn bwysig i mi fel y cynigydd pwnc.

Dr Hannah Young, Athro Cyswllt Ffordd o Fyw ac Adsefydlu, Prifysgol Caerlŷr, Ffisiotherapydd Ymchwil Arbenigol Anrhydeddus, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Caerlŷr

ARGYMHELLION CANLLAWIAU CENEDLAETHOL HTW AR GYFER 2025/26

607


Pynciau a gynigiwyd i HTW ers 2017

62

Canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd

84

Pynciau a symudwyd ymlaen i arfarnu tystiolaeth



EIN HARGYMHELLION

Mae argymhellion ein canllawiau cenedlaethol yn disgyn i dri phrif gategori:

Mabwysiadu fel mater o drefn:

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu'r dechnoleg ar gyfer y boblogaeth gyffredinol..

Mabwysiadu dethol:

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu'r dechnoleg mewn is-set benodol o'r boblogaeth gyffredinol.

Tystiolaeth annigonol i gefnogi mabwysiadu:

Nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi mabwysiadu'r dechnoleg.

Rydym wedi safoni geiriad ein hargymhellion ac wedi diweddarau ein dogfennau canllaw i wneud canllawiau HTW yn gliriach ac yn fwy cyson. Cyflwynwyd yr argymhellion ar gyfer canllawiau a gyhoeddwyd o Chwefror 2026 ymlaen.

Mae'r set newydd o argymhellion wedi'i chyflwyno ar gyfer ein canllawiau ar dechnolegau iechyd. Dyma argymhellion y canllawiau newydd:

- Dylid cynnig fel mater o drefn
- Ni ddylid cynnig fel mater o drefn
- Mae angen mwy o dystiolaeth,

Darperir gwybodaeth lawn am argymhellion y canllawiau newydd yn y ddogfen Trosolwg o Argymhellion y gellir ei [darllen yma](#).

Mae argymhellion HTW ar dechnolegau iechyd yn berthnasol i bob bwrdd iechyd lleol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, pan fydd ganddynt gyfrifoldeb am ddarparu/trefnu gofal i'r boblogaeth a grybwyllir yn y canllaw.

Statws argymhellion HTW yw 'mabwysiadu neu gyfiawnhau'.

Mae hyn yn golygu bod disgwyl i sefydliadau ddilyn yr argymhelliad neu ddarparu cyfiawnhad pam eu bod wedi dewis peidio â'i ddilyn. Nid yw argymhellion ar sut i weithredu ac ariannu'r dechnoleg o fewn cylch gwaith HTW.

RHESTR O GANLLAWIAU HTW A GYHOEDDWDYD YN 2025/26

EBRILL 2025 | [BRACITHERAPI MEWNBLANIAD PARHAOL AR GYFER CANSER Y PANCREAS NA ELLIR EI ECHDORRI](#)

MAI 2025 | [SELIO PIBELLAU GWAED DEUBEGWN ELECTROLAWFEDDYGOL UWCH MEWN POBL SY’N CAEL HYSTERECTOMI](#)

GORFFENNAF 2025 | [DYFEISIAU NIWROFODYLIAD CRIMOGOL MEWNBLANADWY](#)

AWST 2025 | [FFOTOPLETHYSMOGRAFFEG AR GYFER RHEOLI FFIBRILIAD ATRÏAIDD](#)

AWST 2025 | [CATHETRAU MEWNWYTHIENNOL YMYLOL HIR](#)

HYDREF 2025 | [MONITRO FIDEO YN Y CARTREF AR GYFER EPILEPSI](#)

HYDREF 2025 | [YMYRIADAU DIGIDOL AR GYFER CLEFYD CRONIG YR ARENNAU](#)

RHAGFYR 2025 | [ABLADIAD THERMOL I DRIN METASTASISAU’R AFU CANSER Y COLON A’R RHEFR](#)

RHAGFYR 2025 | [PROFION GENYNNAU MAF I ARWAIN TRINIAETH BISFFOSFFONAD ATEGOL MEWN CANSER Y FRON](#)

IONAWR 2026 | [DYFEISIAU SBWNG CAPSIWL](#)

MAWRTH 2026 | [UWCHSAIN Â CHYMORTH DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL](#)

MAWRTH 2026 | [BRACITHERAPI CYFRADD DOS UCHEL ACHUB](#)

ASTUDIAETH ACHOS ARFARNU

ABLADIAD THERMOL I DRIN METASTASISAU'R AFU CANSER Y COLON A'R RHEF

Beth wnaethon ni?

Ystyriodd HTW ddefnyddio abladiad thermol fel opsiwn triniaeth i oedolion â metastasesau'r afu cancer y colon a'r rhefr a fyddai hefyd yn gymwys i gael echdoriad llawfeddygol. Mae abladiad thermol yn driniaeth lle defnyddir gwres, a gynhyrchir gan ficrodonnau neu gan gerrynt eiledol amledd uchel, i ddinistrio'r celloedd cancer. Rydym yn gwybod bod abladiad thermol yn ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer metastasisau'r afu cancer y colon a'r rhefr mewn tiwmorau bach ond yn hanesyddol fe'i defnyddiwyd yn bennaf pan fo echdorri trwy lawfeddygaeth yn anodd neu'n amhosibl. Fe wnaethom werthuso'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar gyfer defnyddio abladiad thermol fel dewis amgen i echdorri mewn metastasisau'r afu cancer y colon a'r rhefr lle byddai echdorri hefyd yn opsiwn, gan gyhoeddi Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a Chanllaw HTW ym mis Rhagfyr 2025.

Gyda phwy?

Cynigiwyd y pwnc hwn gan oncolegydd clinigol ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan ddau oncolegydd ymgynghorol arall, tri radiolegydd ymgynghorol a dau lawfeddyg ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG yn y DU.

Beth oedd yr ymatebion?

Roedd rhanddeiliaid yn credu bod yr adolygiad yn un o ansawdd uchel ac yn teimlo bod y dystiolaeth briodol wedi'i hadolygu a bod casgliadau wedi'u gwneud.

Beth a ddysgodd pobl?

Awgrymodd yr adolygiad tystiolaeth fod abladiad thermol yn dangos canlyniadau goroesi tebyg i echdorri llawfeddygol mewn oedolion â deg neu lai o fetastasisau'r afu cancer y colon a'r rhefr o 3cm neu lai mewn diamedr. Gall ail-driniaeth

hepatig fod yn fwy cyffredin mewn pobl a gafodd driniaeth abladiad thermol. Adroddwyd bod pobl a gafodd driniaeth abladiad thermol tua 60% yn llai tebygol o brofi digwyddiad niweidiol neu gymhlethdod o fewn 30 diwrnod i'r driniaeth ac roedd digwyddiadau niweidiol difrifol yn llai tebygol yn y grwpiau abladiad thermol. Canfu dadansoddiad cost a gynhaliwyd gan HTW fod disgwyl i abladiad thermol fod yn opsiwn triniaeth sy'n arbed cost, ac roedd y canfyddiad hwn yn gadarn i newidiadau mewn bwn model ac addasiadau i dybiaethau modelu allweddol.

Pa wahaniaeth a wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW y dylid mabwysiadu abladiad thermol fel mater o drefn fel opsiwn triniaeth i drin metastasisau'r afu cancer y colon a'r rhefr mewn oedolion â deg neu lai o fetastasisau'r afu cancer y colon a'r rhefr o 3cm neu lai mewn diamedr sy'n gymwys i gael eu hechdorri'n llawfeddygol.



Mae gen i brofiad blaenorol gyda HTW, a oedd yn gadarnhaol iawn, a dyna pam roeddwn i'n awyddus i gynnig pwnc newydd. Roeddwn i'n gwybod y byddai lefel proffesiynoldeb ac arbenigedd HTW yn cefnogi'r llais clinigol ar ysgogi newid ystyrlon i'r cleifion yng Nghymru.

Dr Craig Barrington, Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



ASTUDIAETH ACHOS ARFARNU

YMYRIADAU ADSEFYDLU A HUNANREOLI DIGIDOL AR GYFER POBL Â CHLEFYD CRONIG

Beth wnaethon ni?

Ystyriodd HTW ddefnydd ymyriadau adsefydlu a hunanreoli digidol ar gyfer pobl â chlefyd cronig yr arennau (CKD). Mae CKD yn effeithio ar ychydig o dan 100,000 o bobl yng Nghymru. Mae tystiolaeth bod gwelliannau mewn diet a mwy o ymarfer corff yn fuddiol wrth reoli cyflyrau iechyd hirdymor megis CKD a gallant wella ffactorau risg sy'n gysylltiedig â datblygiad clefydau. Amrywiol yw safon y gofal ar hyn o bryd yng Nghymru, a gall mynediad at wasanaeth adsefydlu neu gefnogaeth/addysg fel mater o drefn a ddarperir gan ymarferwyr gofal iechyd fod yn gyfyngedig. Felly, gall ymyriadau hunanreoli digidol, megis gwefannau neu apiau, fod yn fuddiol. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i addysgu cleifion a rhoi dulliau adsefydlu ac offer iddynt i'w helpu i wella eu ffordd o fyw a deall a rheoli CKD yn well. Enghraifft o un o'r ymyriadau digidol hyn yw Kidney BEAM.

Fe wnaethom werthuso'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar y pwnc, gan gyhoeddi [Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a Chanllaw HTW](#) ym mis Gorffennaf 2025.

Gyda phwy?

Awgrymwyd y pwnc hwn gan Athro Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, ar ran y Grŵp Gweithgaredd Corfforol, Adsefydlu a Llesiant/ Cymdeithas Arennau'r DU a Grŵp Astudiaeth Glinigol Cyngor Ymchwil Arennau'r DU. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio ym maes meddygaeth arenol a neffroleg ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn GIG Cymru ac mewn mannau eraill yn y DU.

Beth a ddysgodd pobl?

Dangosodd tystiolaeth o dreial rheoledig ar hap (RCT) aml-ganolfan yn y DU, a oedd yn cymharu Kidney BEAM â rheolaeth rhestr aros, welliannau yn ansawdd bywyd, gwybodaeth, sgiliau a hyder pobl sy'n gysylltiedig â rheoli iechyd a gofal iechyd, a gweithrediad corfforol. Cyhoeddwyd dadansoddiad cost-effeithiolrwydd ar gyfer yr un RCT a chanfu hwn fod Kidney BEAM yn ymyrraeth gost-effeithiol o'i chymharu â rheolaeth rhestr aros.

Nodwyd sawl ymyrraeth hunanreoli ychwanegol; fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth cost-effeithiolrwydd ar gyfer y rhain a daeth y Panel Arfarnu i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth eto i ddangos eu heffeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd.

Beth oedd yr ymatebion?

Nododd rhanddeiliaid fod casgliadau'r adolygiad wedi'u tynnu o ddehongliad priodol o'r dystiolaeth. Nododd arbenigwyr pwnc fod pobl â CKD yn grŵp amrywiol, gydag anghenion iechyd gwahanol. Tynnodd arbenigwyr sylw hefyd at y ffaith bod cymorth adsefydlu corfforol a hunanreoli i bobl â CKD yn amrywiol a bod rhaglenni presennol yn

cael eu cynnig mewn rhai ardaloedd o Gymru. Dywedodd arbenigwyr fod cleifion yn teimlo bod cymorth meddyliol a chorfforol yn bwysig a bod ymyriadau adsefydlu a hunanreoli digidol yn opsiwn defnyddiol ar gyfer darparu cymorth i gleifion lle nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaeth adsefydlu wyneb yn wyneb.

Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu Technoleg Iechyd Cymru fabwysiadu Kidney BEAM fel mater o drefn, a dylid ei ystyried yn offer yn ychwanegol y gellir ei gyflwyno ochr yn ochr ag unrhyw raglenni a gynigir ar hyn o bryd yng Nghymru. Argymhellodd y Panel Arfarnu ymchwil pellach i asesu canlyniadau tymor hwy. Nodwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol nodi a oes grwpiau o gleifion o fewn y boblogaeth CKD ehangach a allai elwa fwyaf o'r dechnoleg, yn ogystal â nodi'r grwpiau hynny o bobl lle gallai fod llai o ddefnydd.



Roedd hi'n bleser gweithio gyda thîm Technoleg Iechyd Cymru. Roedd cynnig pwnc a chyfrannu at y broses arfarnu yn rhwydd ac nid oedd yn cymryd gormod o amser. Roedd y tîm adolygu yn agored ac yn ymatebol i adborth. Bydd yn ddiddorol gweld pa mor ddylanwadol fydd yr arfarniad ac a fydd yn dylanwadu ar ofal mater o drefn pobl sy'n byw gyda chlefyd yr arennau yng Nghymru ac yn ei newid.

Yr Athro Jamie Macdonald, Athro mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon, Prifysgol Bangor

ASTUDIAETH ACHOS ARFARNU

BRACITHERAPI MEWNBLANIAD PARHAOL AR GYFER CANSER Y PANCREAS NA ELLIR EI ECHDORRI

Beth wnaethon ni?

Ystyriodd HTW ddefnydd bracitherapi mewnblaniad parhaol ar gyfer cancer y pancreas na ellir ei echdorri. Yn aml caiff y cancer hwn ei ddiagnosisio mewn cyfnod datblygedig sy'n golygu na all llawer o gleifion gael echdoriad llawfeddygol. Math o radiotherapi mewnol a ddefnyddir ar gyfer trin canserau yw bracitherapi sy'n cynnwys rhoi deunydd ymbelydrol yn uniongyrchol i'r tiwmor i ddarparu dos ymbelydredd lleol. Asesodd HTW a yw ychwanegu bracitherapi at gemotherapi safonol neu gemoradiotherapi ar gyfer cancer y pancreas na ellir ei echdorri yn gwella rheolaeth leol ar y tiwmor, goroesiad heb waethygu a goroesiad cyffredinol. Gwnaethom werthuso'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar y pwnc, gan gyhoeddi [Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a Chanllaw HTW](#) ym mis Ebrill 2025

Gyda phwy?

Cynigiwyd y pwnc hwn gan OncoSil Medical Ltd (Sydney, Awstralia) gwneuthurwyr OncoSil, dyfais bracitherapi microronynnau. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniodd HTW adborth gan gynrychiolwyr Oncosil Medical Ltd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn GIG Cymru ac yn GIG Lloegr

Beth a ddysgodd pobl?

Dangosodd yr adolygiad tystiolaeth nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi defnyddio dyfeisiau bracitherapi mewnblaniad parhaol ar gyfer cancer y pancreas na ellir ei echdorri yn ogystal â thriniaeth gonfensiynol. Ni ddangosodd treialon rheoledig ar hap welliannau mewn canlyniadau allweddol, megis goroesiad heb waethygu a goroesiad cyffredinol, o'i gymharu â cemoradiotherapi yn unig. Yn ogystal, mae triniaeth gyda bracitherapi yn dechnegol gymhleth ac iddi risg o ddigwyddiadau niweidiol.

Beth oedd yr ymatebion?

Yn gyffredinol, cytunodd rhanddeiliaid fod yr adolygiad tystiolaeth wedi dilyn methodoleg glir a bod casgliadau'n seiliedig ar ddehongliad priodol o'r dystiolaeth.

Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi defnyddio dyfeisiau bracitherapi mewnblaniad parhaol ar gyfer cancer y pancreas na ellir ei echdorri yn ogystal â thriniaeth gonfensiynol.



ASTUDIAETH ACHOS ARFARNU

DYFEISIAU SBWNG CAPSIWL I GANFOD OESOFFAGWS BARRETT A CHANSER YR OESOFFAGWS AR GAM CYNNAR

Beth wnaethon ni?

Edrychodd HTW ar y dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd ychwanegu dyfeisiau sbwng capsiwl at y llwybr diagnostig ar gyfer y cyflwr cyn-ganseraidd oesoffagws Barrett a chanser oesoffagws cynnar. Fel arfer, mae cleifion yn cael endosgopi i chwilio am y cyflyrau hyn, ond gall profion sbwng capsiwl ddangos a oes angen endosgopi a’r brys am hynny. Cyhoeddwyd Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a Chanllaw HTW ar ddyfeisiau sbwng capsiwl ym mis Ionawr 2026.

Gyda phwy?

Cynigiwyd y pwnc hwn gan yr arweinydd clinigol ar gyfer [Rhaglen Adferiad Canser Genedlaethol](#). Gweithredodd clinigwyr o bob rhan o GIG Cymru, yn ogystal ag o Loegr a’r Alban sydd â phrofiad gyda sbyngau capsiwl, cynrychiolwyr o [Cyted Ltd](#), a datblygwyr dyfeisiau sbwng capsiwl fel adolygwyr arbenigol o’n gwerthusiadl.

Beth ddysgon ni?

Mae dyfeisiau sbwng capsiwl Cytosponge ac EndoSign, gyda defnydd o fiofarcwyr priodol, yn dangos cywirdeb diagnostig da ar gyfer sgrinio rhagweithiol oesoffagws Barrett mewn pobl

ag adlif asid cronig, er mwyn canfod achosion o oesoffagws Barrett, ac ar gyfer canfod dysplasia neu ganser oesoffagws Barrett dan oruchwyliaeth. Mae profi sbwng capsiwl, ar y cyd â ffactorau risg clinigol, yn effeithiol wrth drefnu risg cleifion oesoffagws Barrett. Mae hyn yn caniatáu i gleifion â’r risg uchaf dderbyn endosgopi ar frys ac o bosibl i’r cleifion â’r risg isaf gael eu tynnu oddi ar restrau aros am endosgopi.

Canfu dadansoddiad cost-effeithiolrwydd newydd gan HTW, er bod y budd i gleifion yn cael ei leihau ychydig gydag ychwanegu sbyngau capsiwl at y llwybr diagnostig ar gyfer oesoffagws Barrett mewn pobl ag adlif cronig, ei fod yn gost-effeithiol o’i gymharu â phob claf sy’n derbyn endosgopi. Ni allem bennu cost-effeithiolrwydd sbyngau capsiwl ar gyfer oesoffagws Barrett dan oruchwyliaeth oherwydd diffyg canlyniadau tymor hwy a adroddwyd arnynt.

Canfu arolwg fod cleifion yn gyffredinol yn cael profiad llai pleserus wrth ddefnyddio sbwng capsiwl nag endosgopi, ac nid oes gan y rhan fwyaf unrhyw anhawster gyda’r driniaeth. Fodd bynnag, roedd rhai’n teimlo bod endosgopi yn fwy cywir ac roeddent yn fwy tawel eu meddwl gan ganfyddiadau endosgopi.

Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd HTW fabwysiadu dyfeisiau sbwng capsiwl fel mater o drefn o fewn y llwybr diagnostig ar gyfer oesoffagws Barrett mewn pobl ag adlif cronig ond nid oedd yn gallu argymell eu defnydd ar gyfer gwyliadwriaeth oesoffagws Barrett oherwydd nad oeddent yn gallu pennu cost-effeithiolrwydd. Credir y gallai defnyddio dyfeisiau sbwng capsiwl leihau rhestrau aros am endosgopi, rhyddhau adnoddau a sicrhau bod y rhai sydd â’r risg mwyaf yn cael blaenoriaeth ar gyfer ymchwiliad.

Mynychodd cynrychiolwyr HTW y gweithdy cwmpasu ar gyfer arfarniad arfaethedig [NICE](#) o ddyfeisiau sbwng capsiwl ac roeddent yn gyfranwyr dylanwadol wrth fireinio cwmpas yr asesiad, yn ogystal â rhannu gwybodaeth gyda’r grŵp asesu allanol.



ADRODDIAD ARCHWILIAD MABWYSIADU DIWEDDARAF YN DATGELU EFFAITH CANLLAWIAU HTW YNG NGHYMURU

Mae canlyniadau Archwiliad Mabwysiadu 2024/25 yn dangos bod canllawiau HTW yn parhau i gael effaith ledled Cymru.

Canolbwyntiodd yr archwiliad ar chwe chanllaw HTW a thri o ganllawiau Arfarnu Technolegau Meddygol NICE (MTEP).

Cafwyd y gyfradd ymateb orau hyd yma, sef 98%, gyda chyfranogiad gan bob un o'r 10 sefydliad comisiynu yng Nghymru.

Mae canfyddiadau allweddol yr archwiliad mabwysiadu yn cynnwys y canlynol:

Adroddwyd bod eglurder y canllawiau yn dda bron ymhob achos (96%).

Adroddwyd bod y canllawiau yn cael rhyw fath o effaith ar wneud penderfyniadau yn y rhan fwyaf o achosion (59%).

Mae ymatebion gan sefydliadau lle'r oedd y canllawiau'n berthnasol yn dangos gostyngiad mewn ymwybyddiaeth o'r canllawiau yn gyffredinol o'i gymharu ag archwiliadau blaenorol, gyda 60% o sefydliadau'n cadarnhau bod sefydliadau'n ymwybodol o'r canllawiau.

Roedd y bwriad i ddilyn argymhellion y canllawiau yn amrywiol ar gyfer pob canllaw HTW a aseswyd, gyda'r gydymffurfiaeth fwyaf ar gyfer canllaw HTW ar brostheteg myodrydanol aml-afael ar gyfer y breichiaucs a'r gydymffurfiaeth leiaf ar gyfer canllaw HTW ar synwryddion pwysedd rhydweli ysgyfeiniol a fewnblannir drwy'r croen.

Dilynwyd canllawiau NICE bron yn gyffredinol, ac roedd y rhan fwyaf o ganllawiau NICE yn cael rhywfaint o effaith ar wneud penderfyniadau.

Ar y cyfan, roedd lefelau ymwybyddiaeth ac effaith y canllawiau yn gyson ag archwiliadau blaenorol ymhlith sefydliadau sy'n comisiynu ac yn darparu technoleg, ond roeddent yn sylweddol is ymhlith sefydliadau sy'n gomisiynwyr yn unig.

Efallai bod newidiadau a gyflwynwyd eleni i'r eglurhad o'r hyn y dylid ei ystyried yn ganllawiau perthnasol wedi cyfrannu at y canfyddiadau hyn.

Er bod cyfran uchel o sefydliadau wedi nodi bod argymhellion y canllawiau yn glir, rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau a awgrymodd fod ansicrwydd ynghylch sut mae sefydliadau'n penderfynu pa ganllawiau sy'n berthnasol iddynt hwy, beth y disgwylir iddynt ei wneud mewn ymateb i ganllawiau a phwy sy'n gyfrifol am weithredu'r canllawiau.

Yn y dyfodol bydd HTW a sefydliadau comisiynu yn parhau i adolygu eu prosesau ar gyfer lledaenu canllawiau i sicrhau'r ymwybyddiaeth orau posibl o'r canllawiau. Yn y cyfamser bydd HTW, Rhwydwaith Iechyd NICE Cymru (WNHN) a Llywodraeth Cymru yn ailadrodd ac yn egluro statws canllawiau HTW a NICE yng Nghymru, gan gynnwys disgwyliadau sefydliadau comisiynu mewn ymateb i'r canllawiau hyn.

I ddarllen adroddiad archwilio mabwysiadu 2024/25 HTW yn llawn cliciwch yma.



Dywedodd Susan Myles, Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd:



Mae ein hadroddiad mabwysiadu diweddaraf yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i effaith ein canllawiau ledled Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i wneud gwelliannau parhaus i'n prosesau archwilio cyfraddau mabwysiadu ac yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ledled Cymru i godi lefelau ymwybyddiaeth o'n canllawiau.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n partneriaid am eu cefnogaeth barhaus i'n gwaith a'u cyfraniadau gwerthfawr at yr archwiliad mabwysiadu.

GWEITHGAREDDAU PPI YN 2025/26

Trwy gydol 2025/26 mae tîm Cynnwys Cleifion a’r Cyhoedd (PPI) HTW wedi parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â’r gymuned cleifion ac ehangu ei brosesau presennol, gan anelu bob amser am ragoriaeth.

Mae rhai o’r gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd gan y Grŵp Sefydlog PPI (PPISG) a’n tîm PPI eleni yn cynnwys y canlynol:

- ▶ Mae mecanweithiau PPI wedi’u hystyried ar gyfer pob pwnc a dderbyniwyd ar raglen waith HTW.
- ▶ Mae’r ymgysylltu a gynhaliwyd eleni wedi cynnwys arolygon ar-lein gyda chymunedau cleifion, crynhoi tystiolaethau ac adnoddau cleifion, cynnal adolygiadau llenyddiaeth ansoddol, cael gwahoddiad i siarad mewn grwpiau ffocws a dod ag arbenigwyr PPI i gyflwyno yn y panel arfarnu.

- ▶ Cyflwynodd rheolwr PPI gynlluniau a chynigion parhaus ar gyfer ymgorffori tystiolaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses PPI i bartneriaid gofal cymdeithasol.
- ▶ Mae rheolwr PPI a’r PPISG wedi bod yn datblygu proses newydd ar gyfer casglu tystiolaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ceir rhagor o fanylion ar dudalen 19).
- ▶ Mae’r Offeryn Mecanwaith PPI yn cael ei ailwampio’n llwyr.
- ▶ Penododd PPISG ddau gynrychiolydd arall i’w aelodaeth: Versha Shood a Heidi Livingstone.
- ▶ Mynychodd rheolwr PPI gynhadledd flynyddol gyntaf EMRAG ym Mhrifysgol De Cymru.
- ▶ Rhoddodd rheolwr PPI gyflwyniad i fyfyrwyr a oedd yn graddio ym Mhrifysgol Met Caerdydd, gam yr ail dro.

Lleisiau PPI

Gwnaethom ofyn i’n haelodau newydd roi eu hadborth ar fod yn rhan o’r PPISG

- “ Mae gweithio ochr yn ochr â Thechnoleg Iechyd Cymru i asesu’r amrywiaeth o ddatblygiadau technolegol sy’n dod i mewn ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn gadarnhaol iawn ac yn werth chweil. Mae ein barn bob amser yn cael ei chlywed, ei nodi a’i gwerthfawrogi gan y Tîm. Mae’r cyhoedd wir yn cael eu cynrychioli.

Bob McAlister
- “ Mae wedi bod yn faint fawr i ymuno â PPISG HTW. Mae’r trafodaethau am y PPI gorau i’w ddefnyddio ym mhob achos yn bellgyrhaeddol ac ystyriol gyda phawb sy’n cyfrannu at y drafodaeth yn gwybod bod ein mewnbwn yn cael ei werthfawrogi. Mae’n bleser mawr bod yn rhan o’r grŵp a gweld dros fy hun y gofal a gymerir dros bob cynnyrch a’i PPI perthnasol. Rwy’n edrych ymlaen at bob trafodaeth.

Heidi Livingstone
- “ Mae’n galonogol gweld lleisiau cleifion yn dylanwadu’n wirioneddol ar benderfyniadau ac yn helpu i lunio canlyniadau gwell ledled Cymru.

John Gallanders
- “ Roedd ymuno â Grŵp PPI HTW o ddiddordeb i mi gan fy mod wedi bod yn aelod Lleyg o ddau Bwyllgor NICE yn flaenorol ac roeddwn i’n meddwl y byddai’r gwaith hwn yn ddiddorol ac y byddwn yn defnyddio’r profiad hwnnw. Rydw i wedi mwynhau’n fawr bod yn rhan o Grŵp Arfarnu HTW yn edrych ar ymchwil sydd ar ddod o safbwynt PPI ac mae aelodau eraill y grŵp wedi fy nghroesawu’n fawr. Mae fy marn bob amser wedi cael ei hystyried mewn cyfarfodydd ac rwy’n teimlo fy mod yn gwneud cyfraniad defnyddiol a fy mod yn rhan annatod o’r tîm.

Julie Hepburn

DATHLU PENNOD NEWYDD AR GYFER PPI

Mae’n anrhydedd i HTW gyhoeddi ei ran yn ail argraffiad y llyfr ar Gynnwys Cleifion a’r Cyhoedd (PPI) mewn Asesiadau Technoleg Iechyd. Mae’r adnodd pwysig a gwerthfawr hwn wedi bod yn ymdrech ar y cyd gyda dros 120 o arbenigwyr o bob rhan o’r byd sydd, ynghyd â’n golygyddion Karen Facey, Ann Single ac Anke-Peggy Holtorf, yn cofnodi gwahanol ddulliau ar gyfer cynnwys cleifion mewn awdurdodaethau ledled y byd, yn ogystal â chyflwyno diweddariadau ar gysyniadau a dulliau newydd.

Mae pennod Cymru yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau pwrpasol ar gyfer Cynnwys Cleifion mewn HTA. Mae’n pwysleisio pwysigrwydd dull cwbl gydweithredol o weithio gyda sefydliadau sy’n cynrychioli cleifion, yn seiliedig ar fethodolegau hyblyg, ond strwythuredig, sy’n addasu ac yn ymateb i anghenion cymunedau cleifion yn ystod y broses ymgysylltu. Mae HTW yn falch o gael ei enwi ymhlith y nifer o gyfranwyr rhagorol i’r gwaith nodedig hwn ac i hyrwyddo ein Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a’r Cyhoedd (PPISG) a’r gwaith mae’n ei gynhyrchu gan ddefnyddio ein Hofferyn Mecanwaith PPI wedi’i deilwra.

Mae PPI wedi bod yn greiddiol i HTW ers ei sefydlu yn 2017 ac mae’n parhau i fod yn rhan werthfawr a hanfodol o’r gwaith a wnawn. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ein Partneriaid Cyhoeddus rhagorol, nawr ac yn y gorffennol, sydd wedi bod yn hanfodol wrth lunio’r gwaith hwn fel rhan o PPISG ac yn ein pwyllgorau Grŵp Asesu a’r Panel Arfarnu.



Hoffem hefyd dalu teyrnged i’r sefydliadau, grwpiau ac elusennau cleifion, sydd wedi gweithio gyda ni fel cyfranwyr profiadau bywyd cleifion, tystiolaeth sy’n seiliedig ar gleifion a chyflwyniadau cleifion i’n gwaith arfarnu dros y chwe blynedd diwethaf, a’r mewnwelediadau a’r adborth amhrisiadwy y maent wedi’u rhannu â ni.

Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb barodrwydd cleifion, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalgwyr, unigolion a’r cyhoedd i gymryd rhan yn y gwaith a wnawn, i rannu profiadau, barn, safbwyntiau, pryderon a mewnwelediadau gyda ni, ac i helpu i sicrhau bod gwneuthurwyr penderfyniadau yn cael gwybod am y realiti y mae cleifion yn ei wynebu a’r potensial i dechnolegau iechyd ddod â buddion i fywydau pobl. Diolchwn i chi am eich amser, eich ymdrechion a’ch gonestrwydd wrth ymgysylltu â’r broses HTA

Dilynwch y ddolen i lawrlwytho eich copi e-lyfr AM DDIM o’r adnodd hynod bwysig hwn: <https://link.springer.com/book/10.1007/978-3-032-11284-2>

Rydym yn ychwanegu ein llais i’r alwad am Fframwaith Enfys PPI. Llongyfarchiadau i’n holl gyd-awduron a Golygyddion! Ymlaen â’r enfys!



Dywedodd Sarah Peddle, aelod o Grŵp Gweinyddu Technoleg Iechyd a Gofal Cymdeithasol HTW:

Ar ôl ymuno â HTW fel partner cyhoeddus pan oedd y sefydliad yn ei ddyddiau cynnar, roeddwn yn hynod falch ac yn freintiedig i allu cyfrannu at ddatblygu mecanweithiau cynnwys cleifion a’r cyhoedd effeithiol, sy’n sicrhau bod llais y claf a’r cyhoedd yn cael ei glywed a’i ystyried mewn asesiadau technoleg iechyd.

Gwnaethon fabwysiadu dull partneriaeth er mwyn cyflawni hyn, gyda mi fy hun a phartneriaid cyhoeddus eraill o amrywiaeth o gefndiroedd a gydag ystod o brofiadau yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol HTW i ddatblygu a mireinio ymhellach ddulliau sy’n gweithio. Roeddwn hefyd yn hynod falch o fod wedi cael y cyfle i gyfrannu at bennod yn y llyfr Cynnwys Cleifion a’r Cyhoedd mewn HTA, sy’n arddangos ein gwaith yng Nghymru.

HYRWYDDO CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae HTW wedi bod yn archwilio ffyrdd o gryfhau ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EQ&I) yn ei arfarniadau.

Gan ddysgu gan sefydliadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, mae'r tîm wedi cael hyfforddiant a gwneud gwaith ymgynghori helaeth i ddeall Cyfraith Cydraddoldeb yn y DU, ein gofynion cyfreithiol, a safonau arfer gorau ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) ac ystyried tystiolaeth yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer arfarnu technoleg iechyd.

O hyn, mae Rheolwr PPI a [Grŵp Sefydlog PPI \(PPISG\)](#) HTW wedi cynnig proses ffurfiol ar gyfer ymgorffori tystiolaeth ED&I yn y broses PPI. Gan ddechrau gydag ailgynllunio'r Offeryn Mekanwaith PPI, nod y broses yw sicrhau, ar gyfer pob technoleg a arferir gennym, bod materion sy'n ymwneud â phob un o'r naw nodwedd warchodedig o dan gyfraith Cydraddoldeb y DU, a meysydd eraill sy'n cwmpasu ED&I, yn cael eu hamlygu i'w hystyried yn y dystiolaeth.

Gan fynd y tu hwnt i adrodd ar y ffyrdd posibl y gallai technoleg gael gwahanol effeithiau ar grwpiau arbenigol, bydd y broses yn cynnwys chwilio'n weithredol am wybodaeth a thystiolaeth ar yr hyn y gallai'r effeithiau fod, a chynnwys hyn yn yr adolygiad tystiolaeth.

Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys cychwyn a chryfhau ein cysylltiadau â grwpiau diddordeb arbennig sy'n hyrwyddo grwpiau cleifion a chymunedol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan adeiladu ar ein cysylltiadau blaenorol â sefydliadau megis [EMRAG](#) a Communct, gwnaed penodiad arbenigol o arbenigwr ED&I i PPISG i oruchwyllo'r datblygiadau hyn. Bydd y broses ED&I hon yn cael ei threialu eleni gan PPISG ar gyfer pynciau newydd.



CEFNOGI ARLOESED

Mae gan HTW berthynas hirsefydledig â Chontractau ar gyfer Arloesi Cymru (CIC), a elwid gynt yn Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI). Nod CIC yw datrys heriau cymhleth trwy ddarparu cyfleoedd ariannu cystadleuol ar gyfer datblygu a mabwysiadu technolegau a datrysiadau newydd.

Mae HTW wedi cefnogi CIC fel aelod o'i fyrddau prosiect ar gyfer heriau ariannu. Mae hyn yn cynnwys rôl yn y broses gwneud penderfyniadau gychwynnol ynghylch pa dechnolegau sy'n cael eu dewis ar gyfer yr her ariannu yn ogystal â darparu craffu, sicrwydd a chefnogaeth barhaus ar gyfer y technolegau hynny sy'n llwyddiannus.

Fel rhan o gylch gwaith HTW i feithrin arloesedd, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar helpu datblygwyr i ddeall a datblygu'r dystiolaeth sydd ei hangen i brofi gwerth eu technoleg neu ddatrysiad.

Mae heriau diweddar a'r technolegau llwyddiannus a gefnogwyd gan HTW yn cynnwys:

Gwella canlyniadau iechyd i fenywod a merched ledled Cymru

- **Seren:** Platfform therapiwteg digidol ar gyfer y menopos sy'n darparu cefnogaeth yn seiliedig ar therapi ymddygiad gwybyddol (CBT).
- **Ffynhonnell:** Ystafell iechyd a lles ddigidol trochol sy'n defnyddio dyfeisiau realiti rhithwir.

- **GetUBetter:** Platfform hunanreoli digidol ar gyfer cefnogi iechyd y pelfis.
- **Llusern:** Prawf wrin diagnostig ar gyfer llwybrau sgrinio heintiau cynenedigol mewn poblogaeth risg uchel.

Her cancer

- **Cyted Health:** Technoleg sbwng capsiwl i ganfod oesoffagws Barrett a chanser oesoffagws cam cynnar.
- **IBEX Medical Analytics:** Patholeg â chymorth AI ar gyfer cancer y stumog.
- **Cansense:** Diagnosis cancer y coluddyn gyda phrawf gwaed.
- **Qure AI Technologies:** Diagnosis â chymorth AI gan ddefnyddio CT pelydr-X y frest mewn cleifion yr amheuir bod ganddynt ganser yr ysgyfaint.
- **Future Perfect Healthcare:** Cofrestrfa cyn-ganser ar draws y boblogaeth a fydd yn nodi cleifion sydd mewn perygl gan ddefnyddio profion genomig.

Bwydodd y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o waith CIC ar dechnoleg sbwng capsiwl hefyd i mewn i werthusiad tystiolaeth dilynol a gynhaliodd HTW. Argymhellodd y canllaw y dylid mabwysiadu technoleg sbwng capsiwl fel mater o drefn o fewn y llwybr diagnostig ar gyfer oesoffagws Barrett mewn pobl ag adlif cronig.



PARATOI'R Ffordd ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial Mewn Gofal Iechyd

Fel rhan o'i waith parhaus i arloesi dulliau ar gyfer asesu technolegau iechyd â chymorth AI, daeth HTW yn aelod sefydlu'r Grŵp Cymuned Fuddiant AI ym mis Mehefin 2025.

Nod y grŵp DU gyfan hwn yw rhannu arferion gorau a dysgu am werthuso AI mewn gofal iechyd a meithrin cydweithio ar draws rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y maes hwn.

Daw aelodau'r grŵp o'r byd academiaidd, diwydiant, gofal iechyd a'r llywodraeth ac maent yn cynnwys arbenigwyr ar ddiogelwch AI ac ymchwil ffactorau dynol.

Fel HTW, mae llawer o aelodau'r grŵp wedi cefnogi datblygiad technoleg AI yn flaenorol fel rhan o'r [Dyfarniad AI](#).

Cyfarfu'r grŵp yn Llundain ar gyfer cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin a chymerodd ran mewn trafodaeth bwrdd crwn ynghylch yr heriau a'r gwahaniaethau unigryw wrth werthuso AI mewn gofal iechyd. Daeth trafodaeth yr aelodau i ben trwy benderfynu ar flaenoriaethau'r grŵp. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ▶ Datblygu canllawiau ar y cwestiynau allweddol ar gyfer gwerthusiadau AI cynnar mewn gofal iechyd.
- ▶ Cydweithio â datblygwyr y [Gwasanaeth AI a Rheoliadau Digidol](#) i gynhyrchu cyfres o astudiaethau achos ar arfer da ar gyfer datblygu technoleg AI.
- ▶ Cefnogi datblygiad technolegau newydd AI drwy gynnig adolygiad gan gymheiriaid ac adborth arall ar y dystiolaeth y mae angen ei chynhyrchu i ddangos gwerth technolegau AI i system gofal iechyd y DU.

Cymerodd Dr David Jarrom, Prif Ymchwilydd yn HTW, ran yng nghyfarfod cyntaf a thrafodaeth bwrdd crwn y grŵp. Meddai:



Mae bod yn rhan o'r Grŵp Cymuned Fuddiant AI yn caniatáu i ni rannu ein profiadau o werthuso technolegau gofal iechyd AI gydag arbenigwyr amlddisgyblaethol yn y maes. Mae'n gyfle gwych i ni drafod yr heriau a'r cyfleoedd cyffredin yr ydym ni gyd yn eu hwynebu, wrth i ni barhau i brofi a dysgu am werthuso AI.

Mae gwaith blaenorol HTW ar ysgogi arloesedd AI mewn gofal iechyd yn cynnwys:

- ▶ Gweithio gyda phartneriaid clinigol i ddatblygu'r rhestr wirio AI, er mwyn sicrhau cadernid a thryloywder wrth asesu technolegau AI.
- ▶ Cymryd rhan yn rhaglen Horizon Europe a oedd yn cynnwys cael eich cyfweld am ddulliau ar gyfer asesu technolegau iechyd AI fel rhan o brosiect [Asesiad Technoleg Iechyd Digidol Ewropeidd \(EDiHTA\)](#).
- ▶ Dod yn aelod o [Gomisiwn Deallusrwydd Artiffisial Llywodraeth Cymru](#) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chynnig ei fewnwelediadau ar y potensial ar gyfer AI mewn gofal iechyd.



CYDWEITHIO AR DYSTIOLAETH

Drwy gydol 2025/26 parhaodd HTW â'i waith fel partner cydweithredol i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW), gan ddarparu adolygiadau dystiolaeth cyflym ar bynciau yn amrywio o dwristiaeth feddygol i fregusrwydd.

Penodwyd HTW yn ganolfan bartner cydweithredol yn 2023. Nod y ganolfan yw darparu dystiolaeth ymchwil hollbwysig i Weinidogion Llywodraeth Cymru a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill i fynd i'r afael â'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Yn 2025/26 cynhaliodd HTW yr adolygiadau cyflym canlynol:

► **Ymyriadau cymunedol dan arweiniad nyrsys ar gyfer pobl sy'n fregus neu mewn perygl o fregusrwydd: Adolygiad cyflym**

Ein nod oedd deall effaith ymyriadau cymunedol ar helpu pobl sy'n fregus neu mewn perygl o fregusrwydd i barhau i fyw'n annibynnol. Canolbwyntiwyd ar raglenni gofal iechyd a arweiniwyd gan nyrsys.

[Gallwch ddarllen yr adroddiad yma](#)

► **Mesrau canlyniad a adroddwyd gan berson ar gyfer cyflawni nodau neu newid swyddogaethol mewn pobl sy'n cael cefnogaeth adsefydlu gyda gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd: Map dystiolaeth cyflym a chyfosod**

Roedd yr ymchwilwyr eisiau darganfod pa fesurau canlyniad a adroddwyd gan berson (PROMs) sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wrth gefnogi pobl sy'n adsefydlu. Y nod oedd nodi offer sy'n hawdd eu defnyddio, yn ddibynadwy, ac yn addas ar gyfer gwahanol gyflyrau a gwasanaethau ledled Cymru.

[Gallwch ddarllen yr adroddiad yma](#)

► **Cymhlethdodau a chostau i'r GIG oherwydd twristiaeth feddygol allanol ar gyfer llawdriniaeth ddewisol: Adolygiad cyflym**

Nod yr adolygiad cyflym oedd nodi astudiaethau sy'n disgrifio effaith o fod cleifion angen gofal dilynol oherwydd cymhlethdodau o lawdriniaethau dewisol a berfformiwyd dramor ar GIG y DU. Canolbwyntiodd ar ddeall y mathau o gymhlethdodau, y costau sy'n gysylltiedig, ac unrhyw fuddion posibl i'r GIG.

[Gallwch ddarllen yr adroddiad yma](#)

Dywedodd yr Athro Adrian Edwards, Cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:



Mae'r berthynas rhwng Technoleg Iechyd Cymru a Chanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn parhau i ddatblygu a chael effaith. Mae prosiectau sylweddol eleni wedi cynnwys dadansoddi mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion i werthuso gwaith Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn adsefydlu a gwerthuso ymarferwyr nyrsio ymreolaethol sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol. Yr un mwyaf nodedig serch hynny oedd yr adolygiad o effaith twristiaeth feddygol ar y GIG, a ddenodd sylw sylweddol yn y wasg - teledu, radio, papurau newydd a phodlediadau - ar ôl ei gyhoeddi. Mae'r rhain yn dangos ehangder y pynciau sy'n bwysig i wella'r GIG i bobl Cymru a'r effaith yn y byd go iawn sy'n dilyn o'r astudiaethau unigol. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio'n agos.



CYHOEDDI PAPUR YN DATGELU COST I'R GIG O GANLYNIAD I DWRISTIAETH FEDDYGOL

Cyhoeddwyd adolygiad cyflym o dystiolaeth a gynhaliwyd gan HTW ar gost twristiaeth feddygol i'r GIG yn y cyfnodolyn [BMJ Open](#).

Bu ymchwilwyr HTW yn gweithio ar y cyd â Chanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynnal adolygiad cyflym o'r data sydd ar gael ar gostau a goblygiadau twristiaeth feddygol i'r GIG. Roedd yr adolygiad yn cynnwys 37 o astudiaethau o dystiolaeth a oedd ar gael tan fis Rhagfyr 2024.

Yn ôl y papur a adolygwyd gan gymheiriaid a gyhoeddwyd yn BMJ Open, roedd costau twristiaeth feddygol i'r GIG yn amrywio o £1,058 i £19,549 fesul claf ac roedd y costau uchaf yn gysylltiedig ag arosiadau hirach yn yr ysbyty a thriniaethau llawfeddygol.

Roedd y cymhlethdodau mwyaf cyffredin o lawdriniaethau colli pwysau yn cynnwys poen yn yr abdomen, chwydu, methu llyncu a diffyg maeth, gyda gollyngiadau gastrig yn gyffredin.

Hefyd, roedd llawdriniaethau cosmetig yn aml yn arwain at heintiau ac ailagor clwyfau llawfeddygol. Ni adroddwyd am unrhyw farwolaethau ond roedd angen triniaeth gymhleth ar lawer o gleifion a oedd yn cynnwys arosiadau hir yn yr ysbyty a nifer o ymyriadau llawfeddygol.

Fodd bynnag, rhybuddiodd yr ymchwilwyr hefyd ei bod yn amhosibl deall yn llawn y risgiau o ddewis llawdriniaeth dramor gan fod data ar y defnydd, amllder a chanlyniadau i'r GIG yn anghyflawn ac yn anhrefnus. Gwnaethant egluro fod sicrwydd y dystiolaeth a gafwyd o'r rhan fwyaf o'r astudiaethau yn isel gan fod llawer o'r astudiaethau yn ôl-weithredol. Cafwyd data o nodiadau meddygol, a all fod yn anghyflawn neu wedi'u codio'n anghywir. Yn ogystal, roedd ychydig o'r astudiaethau yn cynnwys gwybodaeth am fanylion demograffig neu hanes meddygol blaenorol ac ni chafodd pob canlyniad ei adrodd fel rhan o'r astudiaethau.

Gwnaethant ychwanegu fod hyn yn awgrymu y gallai'r gost a'r cymhlethdodau sy'n deillio o dwristiaeth feddygol gael eu tanamcangyfrif mewn gwirionedd.

Dywedodd Dr Clare England, Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd, a gyd-awdurodd yr adroddiad:

Nid ydym yn gwybod beth yw effaith lawn twristiaeth feddygol. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ganfuwyd gennym bod hyn yn rhoi baich sylweddol ar y GIG. Mae hyn oherwydd yr angen i drin cymhlethdodau megis heintiau, ailagor clwyfau, neu fethu llyncu, y gall llawer ohonynt olygu bod angen triniaeth gymhleth, llawdriniaeth ddiwygio ac arosiadau hir yn yr ysbyty.

Dylai aelodau'r cyhoedd sy'n ystyried mynd dramor i gael triniaeth fod yn ymwybodol o'r risgiau dan sylw ac mae ein papur yn pwysleisio'r angen am ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i dynnu sylw at beryglon posibl twristiaeth feddygol.

Dywedodd Dr Susan Myles, Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru:

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid ar draws y sectorau iechyd, gofal a thechnoleg i gefnogi darpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru.

Fel Partner Cydweithredol Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rydym yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau bod tystiolaeth gadarn ar gael i gefnogi gwneud penderfyniadau ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r adolygiad cyflym yn pwysleisio'r baich sylweddol ar y GIG a achosir gan gymhlethdodau o dwristiaeth feddygol allanol gan gynnwys costau ariannol a'r straen ar adnoddau'r GIG.

Mae'r papur yn dod i'r casgliad bod angen ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i hysbysu aelodau'r cyhoedd sy'n ystyried mynd dramor am lawdriniaeth am y potensial ar gyfer cymhlethdodau.

[Cliciwch yma i ddarllen Cymhlethdodau a chostau i'r GIG oherwydd twristiaeth feddygol allanol ar gyfer llawdriniaeth ddewisol: adolygiad cyflym](#)

HTW AR Y FFORDD

Trwy gydol 2025/2026 gwnaethom fynychu digwyddiadau technoleg iechyd yn y DU ac yn rhyngwladol, gan greu cysylltiadau newydd, cryfhau partneriaethau presennol a lledaenu’r gair am ein gwaith. Roedd y canlynol ymhlith yr uchafbwyntiau:

Mai 2025

Cynhadledd Glinigol a Gwyddonol ‘Gweithio gyda’n Gilydd’ Academi Oncoleg Felindre

Gwnaethom arddangos yng Nghynhadledd Glinigol a Gwyddonol ‘Gweithio gyda’n Gilydd’ 2025 a ddaeth â chydweithwyr clinigol a gwyddonol ynghyd i gryfhau gwaith tîm, arweinyddiaeth glinigol a gwyddonol ac ymarfer uwch. Rhoddodd hyn gyfle gwerthfawr i gasglu awgrymiadau ar gyfer technolegau iechyd i’w harfarnu gan gydweithwyr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mehefin 2025

MediWales Connects

Mae’r digwyddiad blynyddol hwn yn dod â chydweithwyr y GIG, cynrychiolwyr diwydiant ac ymchwilwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt ynghyd. Roedd digwyddiad 2025 yn cynnwys cyflwyniadau ar therapïau uwch, integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru a dyfodol data iechyd o dan dechnolegau digidol sy’n dod i’r amlwg.



Japan Expo

Ymunodd ein Prif Ymchwilydd Matthew Prettyjohns â thîm o gynrychiolwyr o Gymru yn Expo Japan 2025 fel rhan o ymgyrch Wales and Japan 2025 Llywodraeth Cymru. Nod yr ymgyrch oedd meithrin partneriaethau ar draws y ddwy wlad ac, fel rhan o’r digwyddiad, gwnaethom rannu mewnwelediadau ar rôl asesu technoleg iechyd mewn cefnogi datblygiad technolegau iechyd.



Hydref 2025

Arddangosfa MediWales

Mae digwyddiad arddangosfa MediWales yn rhoi cyfle i aelodau MediWales arddangos yr arloesiadau technoleg feddygol y maent wedi’u datblygu a cheisio mewnbwn gan gyd-arloeswyr.



Tachwedd 2025

Wythnos Dechnoleg Cymru

Wythnos Dechnoleg Cymru yw uwchgynhadledd dechnoleg fwyaf y wlad sydd â’r nod o arddangos sector technoleg Cymru sy’n ffynnu. Gwnaethom arddangos yno i ledaenu’r gair am ein gwaith ac i gwrdd â gweithgynhyrchwyr a allai awgrymu technolegau iechyd arloesol i’w harfarnu gan HTW.



Rhagfyr 2025

Digwyddiad Iechyd GIANT

Roedd y digwyddiad deuddydd hwn yn cynnwys sgysiaau gan arweinwyr y GIG ac arloeswyr o bob rhan o sbectrwm arloesi technoleg iechyd. Mynychodd cydweithwyr o bob elfen o feysydd gofal iechyd, gweithgynhyrchu ac academia y digwyddiad ac ymweld â stondin arddangos HTW i ddysgu mwy am ein gwaith.

March 2026

Cynhadledd NICE 2026

Mynychodd tîm o staff HTW Gynhadledd NICE 2026 ym Manceinion, a oedd eleni’n canolbwyntio ar argyfwng cyflym technolegau iechyd arloesol a sut i sicrhau bod y system iechyd a gofal yn parhau i fod yn gynaliadwy i bawb. Darganfu’r cynrychiolwyr sut mae NICE yn helpu i benderfynu pa arloesiadau digidol y dylai’r GIG eu mabwysiadu a beth sy’n cael ei wneud i gefnogi cyflwyno ymyriadau ataliol newydd sy’n chwyldroadol.

EIN TÎM

Mae’r gwaith yn yr adroddiad blynyddol hwn wedi’i gyflawni gan dîm Technoleg Iechyd Cymru. Mae 26 o bobl yn ein tîm gan gynnwys ymchwilwyr gwasanaethau iechyd, economegwyr iechyd, arbenigwyr gwybodaeth, arbenigwyr cyfathrebu, rheolwyr prosiectau a gweinyddwyr.

Rydym yn dod o ystod eang o gefndiroedd a setiau sgiliau ac mae gennym brofiad helaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Cefnogir y tîm gan gyfraniadau amhrisiadwy aelodau allanol ein pwyllgorau sy’n parhau i sicrhau bod ein gwaith yn diwallu anghenion y sectorau iechyd a gofal yng Nghymru.



Dr Susan Miles
Cyfarwyddwr



Dr David Jarrom
Prif Ymchwilydd,
Ymchwil Gwasanaethau



Matthew Prettyjohns
Prif Ymchwilydd,
Economeg Iechyd



Lisa King
Uwch Reolwr Rhaglen



Nathan Bromham
Uwch Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Dr Sian Cousins
Uwch Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



June Price
Rheolwr
Gweithrediadau Busnes



Katie McDermott
Rheolwr Prosiect



Rebecca Boyce
Uwch Economegydd
Iechyd



Hayley Bennett
Uwch Economegydd
Iechyd



Ryan Miller
Uwch Economegydd
Iechyd



Jessica Williams
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Dr Claire Davis
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Dr Clare England
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Leona Batten
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Charlotte Bowles
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Eleni Glarou
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Dr Greg Hammond
Ymchwilydd
Gwasanaethau Iechyd



Alice Evans
Rheolwr Cynnwys
Cleifion a’r Cyhoedd



Rebecca Shepherd
Rheolwr Cymorth Prosiect



Diana Milne
Rheolwr Cyfathrebu



Elise Hasler
Arbenigwr Gwybodaeth



Jenni Washington
Arbenigwr Gwybodaeth



Mafalda Gordo
Cynorthwydd Cymorth
Busnes a Chyfathrebu



Llinos Jones
Cyfieithydd Cymraeg




Francesca Howells,
Uwch Gynorthwydd
Gweithredol

CYFLAWNI YN ERBYN Y GYLLIDEB

Mae HTW wedi cyflawni’n llwyddiannus yn erbyn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2021–2025 sy’n nodi ei nodau a’i amcanion strategol tymor byr a chanolig. Ariannodd Llywodraeth Cymru ei waith craidd yn 2025/26.


Sicrhodd HTW incwm ychwanegol hefyd i ariannu ei waith fel partner cydweithredol i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.



Adrodd tanwariant cymedrol hyd yma, oherwydd canslo cynhadledd ryngwladol, oedi mewn caffael a secondiad staff



Ar y trywydd iawn i gyflawni o fewn y gyllideb yn ystod 2026/27



Cefnogi 20.53 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a chyfanswm o 25 o staff



Dyrannu ein cyllideb i 85% o gostau staff a 15% o gostau nad ydynt yn gostau staff



Dyfarniad pum mlynedd wedi’i sicrhau ym mlwyddyn ariannol 2023/24 i weithredu fel cydweithiwr yn y ganolfan dystiolaeth newydd i Gymru



Wyddoch chi am dechnoleg neu fodel
gofal a chymorth ym maes iechyd
neu ofal cymdeithasol y gallai HTW
ei arfarnu? Gall unrhyw un awgrymu
pwnc ar gyfer ei arfarnu. I gymryd
rhan, ewch i'n gwefan.



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

healthtechnology.wales

Technoleg Iechyd Cymru (HTW), Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre,
Uned 2 Charnwood Court, Parc Nantgarw, CF15 7QZ, Y Deyrnas Unedig

